Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.10 Gwiriadau cofnodion troseddol

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn un o asiantaethau'r llywodraeth ac mae'n darparu siop un stop i'r rhai sy'n ceisio cael gafael ar wiriadau cofnod troseddol.

Mae Datgeliad (gwiriad y CRB) yn broses o gasglu gwybodaeth am weithgaredd troseddol posibl ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys collfarnau wedi'u disbyddu a chollfarnau heb ddarfod a rhybuddion a roddir gan yr Heddlu. Datgeliad yw'r dystysgrif sy'n cynnwys y wybodaeth hon.

Gellir defnyddio gwasanaeth Datgelu'r CRB drwy ddod yn Gorff Cofrestredig neu drwy wasanaethau Corff Ymbarél Cofrestredig sy'n gweithredu ar ran mudiadau eraill.

Dim ond mewn amgylchiadau penodol y dylid gofyn am Ddatgeliad y CRB, er enghraifft pan fydd gan wirfoddolwr gyswllt rheolaidd gydag unigolion agored i niwed o ganlyniad uniongyrchol i'w swydd o fewn y sefydliad.

Mae dwy lefel o Ddatgeliad ar gael:-
Safonol– nid yw hyn ar gael bellach ar gyfer swyddi sy'n golygu gweithio gyda phlant neu gyswllt rheolaidd gydag oedolion agored i niwed. Bydd ar gael ar gyfer rhai swyddi diogelwch a gamblo.

Manylach – ar gyfer swyddi sy'n golygu gofalu'n rheolaidd am, goruchwylio, hyfforddi neu fod yn bennaf gyfrifol am blant neu oedolion agored i niwed. Mae maes y Datgeliad Manylach wedi'i ehangu i ystyried gweithgaredd rheoledig o fis Hydref 2009. Bydd hyn yn darparu manylion am gollfarnau wedi'u disbyddu a chollfarnau heb ddarfod a rhybuddion. Yn ogystal, gall gynnwys gwybodaeth gan heddluoedd lleol a allai fod yn berthnasol i'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r diogelwch ychwanegol sy'n cael ei gyflwyno o dan Gynllun Fetio a Gwahardd (CFG) yr ADA. Cyflwynir y rhain o fis Hydref 2009 pan fydd y rhestrau gwaharddedig newydd yn disodli POCA, POVA a Rhestr 99 a bydd maes y Datgeliad Manylach yn cael ei ehangu i ystyried gweithgaredd rheoledig.

Yn ogystal, o fis Gorffennaf 2010 bydd unrhyw berson sy'n dymuno gweithio gyda grwpiau agored i niwed yn gallu cofrestru ar y CFG. Bydd hyn yn ofyniad cyfreithiol o fis Tachwedd 2010. Fodd bynnag, cyflwynir y Cynllun hwn dros gyfnod o bum mlynedd felly ni fydd yn rhaid i bawb wneud hyn ar unwaith.

Bydd CFG yr ADA yn gweithio ochr yn ochr â system wiriadau bresennol y CRB a bydd gwiriad ar-lein yn dangos a yw'r unigolyn wedi'i gofrestru ar y Cynllun. Fodd bynnag, efallai y bydd mudiadau'n dymuno gwneud cais am

Ddatgeliad Manylach hefyd er mwyn cael hanes troseddol llawn oherwydd gallai hyn fod yn bwysig er mwyn asesu addasrwydd llawn ar gyfer swydd benodol.

Cost Gwiriadau Cofnod Troseddol

Mae'r CRB yn codi tâl ar gyfer cyflogeion taledig o

- Datgeliad Safonol £31
- Datgeliad Manylach £36

Ni chodir tâl ar gyfer gwirfoddolwyr.

Sut i gael Gwiriad Cofnod Troseddol

Gall mudiadau wneud cais am wiriadau mewn dwy ffordd. Gall sefydliad wneud cais i'r CRB i ddod yn Gorff Cofrestredig neu gall wneud cais drwy Gorff Ymbarél Cofrestredig.

Fodd bynnag, efallai y bydd llawer o fudiadau'n credu y byddai dod yn Gorff Cofrestredig yn amhriodol iddynt hwy neu efallai na fyddant yn gymwys.

Uned Cofnodion Troseddol WCVA

Mae Uned Cofnodion Troseddol (UCT) WCVA yn un o Gyrff Ymbarél Cofrestredig y CRB sy'n darparu mynediad AM DDIM i wasanaeth Datgeliad y CRB a Chynllun Fetio a Gwahardd yr ADA ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru.

Sefydlwyd yr Uned i helpu gyda phroses mwy diogel o recriwtio staff taledig a gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio i swyddi lle byddant yn gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Gall yr UCT ddarparu ffurflenni cais Datgelu gwag a gallant gydlofnodi ceisiadau ar ran unrhyw sefydliad gwirfoddol sy'n recriwtio ar gyfer swyddi yng Nghymru.

Mae hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y gweithdrefnau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod mudiadau sy'n defnyddio gwiriadau cofnod troseddol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y CRB.

Mae'r gwasanaeth dwyieithog AM DDIM ac nid oes tâl gweinyddol i fudiadau gwirfoddol. Yr unig daliadau yw'r rhai a godir gan y CRB mewn cysylltiad â gwiriadau Datgelu ar gyfer cyflogeion taledig; nid yw'r CRB yn codi tâl am wiriadau gwirfoddolwyr.

Mae UCT WCVA yn croesawu ymholiadau gan fudiadau a hoffai wybod mwy am wiriadau cofnod troseddol neu sy'n dymuno defnyddio gwybodaeth yr UCT.

Gwybodaeth bellach

UCT WCVA
Ffôn: 0800 0197 391
Ffacs: 01745 357593
cru@wcva.org.uk
www.wcva-cru.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:24/02/2010

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk